## FFURFLEN GOFRESTRU

DEFNYDDIWCH LYTHRENNAU BRAS OS GWELWCH YN DDA

Enw Cyntaf Enw Olaf

Enw/au Cofrestru: ______________________

Enw/au Ysbrydol: ______________________

Nifer gwrywaidd: ______ Nifer Benywaidd: ______

Enw/au Plant: ______________ Oedran: ______

Cyfeiriad: ______________________

Tref/Dinas: ______________________

Sir/Talaith: ______________ Côd Post: ______________

Gwlad: ______________________

Ffôn: ______________________

Ffacs: ______________________

E-bost: ______________________

Proffesi/wn/ynau: ______________________

### AMGAEAF DAL AM Y CANLYNNOL:

**Encil 4 Diwrnod (yn cynnwys Prydau Llysieuol)**

Llety yn Neuadd Buckland @ £185 y pen £______

Llety mewn Ffermdy/Bwthyn @ £145 y pen £______

**Penwythnos yn unig (yn cynnwys Prydau Llysieuol)**

Oedolyn - Llety mewn Ffermdy/Bwthyn @ £108 y pen £______

Plant (oed 5 i 14) @ £40 y pen £______

Plant (dan 5) Am Ddim

**Dyddiau Unigol @ £45 y dydd** £______

**(yn cynnwys cinio canol dydd)**

Nodwch eich diwrnod dewisol:

Iau ☐ Gwener ☐ Sad ☐ Sul ☐

**Amgaeir Cyfanswm o: £** ______

**Yn daladwy i 'Padmasambhava'**

**Modd o Dalu:**

Archeb Arian Rhyngwladol ☐ Siec ☐

Archeb Post ☐ Drafft Banc ☐


Defnydd Swyddfa'n unig:

Derbyniwyd gan ______________ Dyddiad ______

## Y LLEOLIAD



Mae Neuadd Buckland yn blasdy hynafol a adnewyddwyd yn gywrain. Mae iddo 60 acer o erddi a saif yng nghanol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Wedi ei neilltuo ar gyfer encil, mae'n ganolfan sy'n cyfuno cyfforddusrwydd gyda symlrwydd a llonyddwch.




## SUT I GYRRAEDD

**Gyda char:** Mae Neuadd Buckland yn agos at yr M4 a'r M5. Wrth ddod o gyfeiriad y Fenni ar yr A40, rhwng Bwlch a Thalybont ar Wysg, mae arwydd mawr gwyrdd ar y chwith yn nodi 'r troad. O Aberhonddu mae'r arwydd ar y dde. Amcanfyfrif oriau teithio: Llundain 3, Birmingham 2, Rhydychen 2½, Caerdydd 1.

**Gyda Thrên:** i Gaerdydd Canolog, newid am drên i'r Fenni. Tacsi o'r Fenni.

**Gydag Awyren:** i Faes awyr Caerdydd yna trên i'r Fenni neu o Heathrow, bws i Gaerdydd a thrên i'r Fenni.

**Ymholiadau:**

**Padmasambhava,**
**66 Heol Rhosmaen, Llandeilo,**
**Sir Gaerfyrddin SA19 6EN, Cymru, DU**

**Ffôn: + 44 (0)1558 823842**
**Ffacs: + 44 (0)1558 824437**
**E-bost: seminar@bhava.freeserve.co.uk**

PADMASAMBHAVA YN CYFLWYNO

# DEFNYDD O YOGA YN Y MILENIWM NEWYDD



## 8-11 Mehefin 2000

NEUADD BUCKLAND
BWLCH (GER ABERHONDDU)
POWYS
CYMRU

AREITHYDD CYWEIRNOD
SWAMI NIRANJANANANDA SARASWATI
CANGHELLOR
BIHAR YOGA BHARATI, YR INDIA

## GWYBODAETH AM Y SEMINAR

Dyma gyfle unigryw i brofi **Encil Yoga 4 diwrnod** yng nghanol harddwch cefn gwlad Cymru. Ceir cyfle i gerdded llwybrau'r goedwig neu afon a blasu'r fford Yogic o fyw, wedi ei gyfuno a sesiynau ymarferol, gweithdai llawn gwybodaeth a darlithoedd ar gymhwyso Yoga.

Bydd rhaglenni **Penwythnos Deuluol** a **Dyddiau Unigol** yn rhedeg ar yr un pryd gan gynnwys:

- Gweithdai a Fforwm i grwpiau gwahoddedig (Gwasanaethau Cymdeithasol, Anabl, Meddygol, ayyb.)
- Dau sesiwn grwp y dydd gyda'n siaradwr gwadd arbennig, Swami Niranjanananda Saraswati
- Dosbarthiadau Hatha Yoga, Yoga Nidra (ymlacio'n ddwfn), Myfyrdod, Kirtan a Nada Yoga gydag athrawon profiadol Yoga Satyananda o'r DU ac Ewrop

## AREITHYDD CYWEIRNOD

Mae Swami Niranjanananda Saraswati, Canghellor BYB, yn areithydd arbennig o ddysgedig ac eglur sy'n ysbrydoli miloedd ar draws y byd. Wedi ei enni yn yr India, ei addysgu yn Ewrop ac America, mae'n weledydd sy'n integreiddio doethineb yogic traddodiadol yr India gyda dealltwriaeth ddofn o broblemau a gofynion y gymdeithas fodern. Wedi teithio'n eang, mae'n siarad amryw o ieithoedd ac yn awdur dros 20 o gyhoeddiadau.

## PRIFYSGOL BIHAR YOGA BHARATI (BYB)

Sefydlwyd BYB gan Swami Niranjanananda i warchod ac adfywio cwmpas dylanwad gwyddor Yoga trwy gyfuno methodoleg academaidd a gwyddonol gyda'r ffordd o fyw a'r weledigaeth ysbrydol.

Dyma'r sefydliad cyntaf o'i fath i gynnig addysg yogic gynhwysfawr. Ar hyn o bryd cynigir cyrsiau Tystysgrif 4 mis; cwrs blwyddyn Diploma mewn Astudiaethau Yogic Uwch; cyrsiau 2 flynedd yn arwain at MA Athroniaeth Yogic; MA/MSc mewn Seicoleg Yogic a MSc mewn Athroniaeth Yogic Gymhwysol.

## BETH YW PADMASAMBHAVA?

Cymdeithas nad yw'n anelu at wneud elw, a chanolfan sy'n gysylltiedig â Phrifysgol Bihar Yoga Bharati . Mae'r ganolfan wedi ymrwymo i wneud gwaith ymchwil ac i ddysgu yoga a myfyrdod yng Nghymru yn unol ag athrawiaeth y BYB ac Ysgol Yoga Bihar, Yr India.

## LLETY

**Neuadd Buckland**

Bydd y 50 o'r llefydd cysgu yn cael eu dosbarthu yn ôl y drefn **"**cyntaf i'r felin**"** gan roi blaenoriaeth i'r rhai sy'n teithio o dramor, athrawon a hyrwyddwyr gweithdai.

**Ffermdai/bythynnod**

Mae'r trefnwyr wedi rhentu nifer o dai haf : yn ffermdai a bythynnod, mewn llecynnau hwylus i gynnig dewis o lety tra'n gwarchod naws ac awyrgylch grwp ac encil. Bydd y safleoedd hyn yn cael eu dosbarthu ar ôl ichi gofrestru yn Neuadd Buckland.

## COFRESTRU

Encil 4 Diwrnod: 9yb tan hanner dydd, dydd Iau 8fed. Penwythnos: 4yh i 6yh ddydd Gwener 9fed.

## FFIOEDD SEMINAR

**Encil 4 diwrnod:**

Dydd Iau 8fed 9.00yb tan Ddydd Sul 11eg 4.00yh

~~**Oedolyn** (lletu yn Neuadd Buckland) £185~~

**Oedolyn** (lletu mewn Ffermdy/Bwthyn) £145

**Rhaglen Penwythnos Teuluol:**

Gwener 9fed 6.00yh i Sul 11eg 4.00yh

(Lletu Ty Fferm/Bwthyn, Llofft i deulu ar gael)

**Oedolyn** £108

**Plentyn**: 5–14 £40

dan 5 (cots ar gael) AM DDIM

Yn cynnwys holl brydau Llysieuol.

**Mynychu dyddiau unigol:**

**Oedolyn** £45

(yn cynnwys cinio canol dydd Llysieuol)

## SUT I GADW LLE

Llenwch y ffurflen atodedig os gwelwch yn dda, ac anfonwch hi gyda'ch siec yn daladwy i:


**'Padmasambhava'**
**66 Heol Rhosmaen**
**Llandeilo**
**Sir Gaerfyrddin SA19 6EN**
**Cymru, DU**

**Ffôn: + 44 (0)1558 823842**
**Ffacs: + 44 (0)1558 824437**

**E-bost: seminar@bhava.freeserve.co.uk**


Lle i nifer cyfyngedig a geir, felly gweithredwch yn gynnar i sicrhau lle.